# Datganiad safbwynt ar y Cyswllt Grid Cenedlaethol arfaethedig rhwng Bangor ac Abertawe

**Cefndir**

Mae'r Gynghrair dros Dirweddau Dynodedig Cymru (CdTDC) yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tair Cymdeithas Parc Cenedlaethol Cymru ac o rai o'r Tirweddau Cenedlaethol (AONBs) yng Nghymru.

Mae'r Gynghrair wrth ei bodd fod y Grid Cenedlaethol ar hyn o bryd yn y broses o danddaearu'r peilonau sy'n croesi Afon Dwyryd. Mae hyn yn dangos dealltwriaeth wirioneddol o effaith enfawr llinellau uwchben a pheilonau mewn Tirweddau Dynodedig. Rydym yn cymeradwyo hyn.

Ym mis Mawrth 2024, fodd bynnag, cyhoeddodd y National Energy Systems Operator ei strategaeth Beyond 2030 i greu rhwydwaith trawsyrru sy'n gallu gwrdd ag anghenion economi sydd wedi ei ddatgarboneiddio. Mae hyn yn cynnwys cynnig i adeiladu cyswllt tensiwn uchel rhwng Bangor ac Abertawe. Nid yw'r ddogfen yn awgrymu unrhyw lwybr penodol ar gyfer y cyswllt hwn, a ddangosir yn ddangosol fel llinell doriad gwyrdd yn y diagram a atgynhyrchir isod.





Figure 19. Map of all reinforcements in the Wales region

*Dashed lines represent low maturity options
**Note:** all routes and options shown on this map are for illustrative purposes only

Y darlun uchod – o Beyond 2030

Mae yna ddyfalu wedi bod hefyd am gysylltiad newydd posib gyda pheilonau rhwng Bodelwydden yn Sir Ddinbych a Llandyfaelog i'r Dwyrain o Gaerfyrddin. Er na fyddai hyn o reidrwydd yn cyffwrdd ag unrhyw Barc Cenedlaethol presennol, fe fyddai'n mynd drwy'r Parc Cenedlaethol arfaethedig newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, sy'n cael ei hyrwyddo a'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n ddiddorol nodi, ar draws y DU gyfan, fod cynlluniau Beyond 2030 yn cynnwys nifer fawr o geblau o dan y môr sy'n cysylltu lleoliadau ar y tir. Gweler y darlun trosodd – hefyd o Beyond 2030. Hynny yw, rhwng yr Alban a Chymru, yr Alban a Lloegr a Lloegr gyda Lloegr. Mae hyn yn dangos bod cysylltiadau trydan o dan y mor yn ymarferol ac yn fforddiadwy a'u bod yn aml yn darparu'r opsiwn ymarferol gorau yn gyffredinol.





Figure 7. Map of network infrastructure to be delivered by 2030

**Pryder**

Mae Cynghrair Tirweddau Dynodedig Cymru yn bryderus iawn am y posiblrwydd o linellau o beilonau newydd drwy Barc Cenedlaethol Eryri, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a hefyd Mynyddoedd Cambria. Byddai yr effaith o wneud hyn ar y dirwedd yn aruthrol. Nodwn y byddai croesi Parciau Cenedlaethol Eryri neu Fannau Brycheiniog yn amlwg yn groes i Reolau Holford, sy'n dyddio'n ôl i 1959, a hefyd Datganiad Polisi Cenedlaethol Rhwydwaith Trydan EN-5. Mae Rheolau Holford yn datgan yn glir:

> *"Dylid osgoi yn gyfan gwbl, os yn bosibl, y prif ardaloedd sydd â'r gwerth amwynder uchaf, trwy gynllunio llwybr cyffredinol y llinell gyntaf yn y lle cyntaf, hyd yn oed os bydd cyfanswm y milltiroedd yn cynyddu rhywfaint o ganlyniad."*

Mae nodyn sy'n cydnabod yn benodol fod "ardaloed sydd â'r gwerth mwynderol uchaf" yn golygu Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Eithriadol, neu Dirweddau Cenedlaethol fel y'u gelwir bellach.

Mae Datganiad Polisi Cenedlaethol y Rhwydweithiau Trydan Datganiad Polisi EN-5 [1], yn nodi, ym mharagraffau 2.9.20 a 2.9.21:

> *2.9.20 Er mai safbwynt y llywodraeth yw mai llinellau uwchben ddylai fod y rhagdybiaeth gychwynnol gref ar gyfer datblygiadau rhwydweithiau trydan yn gyffredinol, caiff y rhagdybiaeth hon ei gwrthdroi pan fydd datblygiadau arfaethedig yn croesi rhan o dirwedd a ddynodwyd yn genedlaethol (h.y. Parc Cenedlaethol, The Broads, neu Ardalno Harddwch Naturiol Eithriadol).*
>
> *2.9.21 Yn yr ardaloedd hyn, a lle na ellir yn ymarferol osgoi niwed i'r dirwedd, mwynder gweledol a harddwch naturiol yr ardaloedd hyn trwy ailgyfeirio llinellau uwchben, y rhagdybiaeth gychwynnol gref fydd y dylai'r ymgeisydd danddaearu'r rhan berthnasol o'r llinell. .*

**Cynigion**

Mae Cynghrair Tirweddau Dynodedig Cymru yn cynnig fod unrhyw gyswllt tensiwn uchel newydd rhwng Bangor ac Abertawe yn cael ei gynllunio ar sail hierarchaeth cynllunio dilyniannol grid gwyrdd gan gynnwys:

- Mae angen gwneud achos cadarn dros seilwaith newydd – sy'n blaenoriaethu'r defnydd o gridiau clyfar a systemau hyblyg i reoli'r galw yn well
- Mae angen hybu storio ynni ac effeithlonrwydd
- Os oes angen cyswllt Bangor i Abertawe, neu yn wir unrhyw fath o gyswllt rhwng Gogledd a De Cymru, dylid ffefrio'r opsiwn i gynllunio'r llwybr o dan y mor o amgylch Gorllewin Cymru, yn amodol ar ganlyniad boddhaol i asesiad amgylcheddol o'r effaith ar y cynefin morol. Fyddai'r cysylltiad fel hwn o dan y mor yn fanteisiol gan y byddai modd cysylltu ffermydd gwynt ar y môr â'r grid. Byddai hyn yn osgoi'r angen i bob fferm wynt gael ei chebl ei hun i'r tir.

[1] Ar gael arlein yma: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65a78a5496a5ec000d731abb/nps-electricity-networks-infrastructure-en5.pdf

- Os ydy'n hanfodol i gysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy yn y Canolbarth[2], yna gellid cyflawni hyn drwy gynnwys cysylltiad rhwng prosiectau ynni adnewyddadwy yn y canolbarth a'r cebl o dan y mor rhwng Gogledd Cymru ac Abertawe.
- Yn unol â Rheolau Holford, os oes angen cyswllt ar y tir, yna dylai ei lwybr osgoi Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol. Mae'r Gynghrair o'r farn y dylid rhoi'r statws hwn i Fynyddoedd Cambria[3] hefyd, oherwydd eu gwerth tirwedd, sydd yn amlwg yn uchel iawn.
- Er bod EN-5 yn galw am danddaearu llinellau pŵer tensiwn uchel er mwyn osgoi niwed i'r dirwedd mewn Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, nid yw hwn yn ateb hawdd. Gallai'r costau economaidd a'r difrod ecolegol o wneud hyn fod yn ddifrifol, yn enwedig gan fod llawer o'r ardaloedd y byddai'r cyswllt yn debygol o fynd drwyddynt yn fynyddoedd creigiog a dyffrynnoedd dwfn.
- Dylai unrhyw lwybr ar y tir osgoi agosrwydd at ffiniau Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, oni bai bod yr effaith weledol o fewn ardaloedd dynodedig yn cael ei gwrthbwyso gan enillion amgylcheddol sylweddol fel rhan o ddull 'Enillion Net' y Grid Cenedlaethol.
- Dylai'r Gweithredwr Grid ystyried effaith amgylcheddol lawn y gwahanol opsiynau cyn ystyried gwerth am arian. Hynny yw, ni ddylid diystyru unrhyw opsiwn realistig ar sail cost cyn i effaith amgylcheddol lawn yr holl opsiynau gael eu hasesu.

---

[2] Yn enwedig mewn 'pre-assessed areas for wind energy' ar nodwyd ar dudlaen 129 o Future Wales 2024, sydd y tu allan i ffiniau arfaethedig Tirwedd Genedlaethol Mynyddoedd Cambria.

[3] Hyd nes y caiff ffiniau Tirwedd Genedlaethol Mynyddoedd Cambria eu diffinio, mae'r datganiad hwn yn cyfeirio at y ffiniau a awrgrymir gan y Comisiwn Cefn Gwlad yn 1972.